Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 2il Adroddiad Cynnydd ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad

# Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru (Tachwedd 2018)*

**Gwybodaeth am y ddogfen:**

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen: | 2il Adroddiad Cynnydd ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru |
| Fersiwn: | 0.3 |
| Dyddiad Cyhoeddi: | 6 Mehefin 2019 |
| Statws: | Drafft |
| Perchennog y Ddogfen: | Rob Orford |
| Awduron y Ddogfen: | Jane Fitzpatrick, Rob Orford |

**Hanes y ddogfen:**

| Diwygiwyd gan | Fersiwn | Statws | Dyddiad | Diben y Newid |
|---|---|---|---|---|
| | 0.1 | Drafft | 16.05.19 | Drafft cychwynnol (JEF) |
| | 0.2 | Drafft | 31.05.19 | Gwelliannau (RO) |
| | 0.3 | Drafft | 06.06.19 | Diweddariad ar statws y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynllun (RO) |
| | 0.4 | Terfynol | 24.06.2019 | Wedi'i gadarnhau |
| | | | | |

# 1 Cyflwyniad

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru* ar 8 Tachwedd 2018.

https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwasanaethau-radioleg-yng-nghymru

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod y galw cynyddol, anawsterau o ran recriwtio a chadw staff, offer sganio hen ffasiwn ac annigonol a gwendidau TG yn rhoi Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru o dan bwysau.

Er gwaethaf y pwysau hwn, canfu'r adroddiad fod targedau amseroedd aros ar gyfer archwiliadau radioleg yn cael eu bodloni ar hyn o bryd a bod gwasanaethau radioleg yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan.

Ar 26 Tachwedd 2018, brifiodd yr Archwilydd Cyffredinol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr adroddiad a nododd yr aelodau y llwybr cadarnhaol yn y maes hwn a chytunwyd i beidio â chynnal ymchwiliad ar hyn o bryd, ond gofynnwyd am ddiweddariadau ysgrifenedig rheolaidd gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Delweddu. Fodd bynnag, os bydd oedi, dywedodd y Pwyllgor y byddai am wybod am yr oedi hwn a'r rhesymau drosto, a gofynnodd am ddiweddariadau ysgrifenedig ar gynnydd ar:-

- 4 Mawrth 2019
- 24 Mehefin 2019
- 7 Hydref 2019

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Mai 2019 am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phedwar argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru, a geir yn yr adroddiad ar *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru* (Tachwedd 2018), i ddarparu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Delweddu.

# *2 Argymhellion a geir yn yr adroddiad ar Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru (Tachwedd 2018)*

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018, nodwyd amryw o heriau allweddol a wynebwyd gan fyrddau iechyd a oedd yn gofyn am weithredu ar lefel leol a chenedlaethol. Gan fod yr heriau cenedlaethol yn cyd-fynd â'r camau gweithredu a nodir yn *Llywodraeth Cymru: Datganiad o Fwriad o ran Delweddu (Mawrth 2018*), nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gweld gwerth ailadrodd y camau hynny ar ffurf argymhellion yn ei adroddiad.

Mae'r dyfyniad canlynol o'r adroddiad ar *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru* yn tynnu sylw at y pedwar argymhelliad allweddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

| | |
|---|---|
| *Mae'r Datganiad o Fwriad o ran Delweddu yn trafod yr heriau cenedlaethol y mae gwasanaethau radioleg yn eu hwynebu ledled Cymru ac mae'n pennu camau gweithredu priodol. Fodd bynnag, i gyflawni'r camau gweithredu hyn, bydd rhaid llunio cynllun gweithredu cenedlaethol amserol o ran delweddu a bydd rhaid gweithredu ar ei sail.* | |
| **Argymhelliad 1** | *Drwy'r Tasglu Delweddu, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynllun gweithredu cenedlaethol o ran delweddu yn rhoi sylw i bob un o'r camau gweithredu a bennir yn y Datganiad o Fwriad o ran Delweddu, yn ogystal â'r prif heriau a nodir yn yr adroddiad hwn.* |
| **Argymhelliad 2** | *Dylai'r cynllun gweithredu cenedlaethol gynnwys dyddiadau gweithredu clir i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn y tymor byr i ganolig, a dylid pennu'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau hyn.* |
| **Argymhelliad 3** | *Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i gostio'r cynllun gweithredu'n briodol a sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gefnogi'r broses o'i roi ar waith.* |
| **Argymhelliad 4** | *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r broses o roi'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar waith.* |

# 3 Cynnydd yn erbyn yr argymhellion

## 3.1 Argymhelliad 1 – *drwy'r Tasglu Delweddu, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynllun gweithredu cenedlaethol o ran delweddu yn rhoi sylw i bob un o'r camau gweithredu a bennir yn y Datganiad o Fwriad o ran Delweddu, yn ogystal â'r prif heriau a nodir yn yr adroddiad hwn.*

Gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Delweddu lefel uchel i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y *Datganiad o Fwriad o ran Delweddu.*

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Delweddu wedi'u datblygu, ac fe'u darperir yn Atodiad 1.

Mae'r pedwar is-grŵp canlynol wedi'u sefydlu i arwain y camau gweithredu a nodwyd yn erbyn yr wyth maes blaenoriaeth a gynhwyswyd yn y *Datganiad o Fwriad o ran Delweddu* a'r heriau allweddol a amlygwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru*:-

- Gweithlu ac Addysg
- Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddiwr

- Cynllunio Adnoddau Strategol
- Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes

Mae arweinwyr wedi cael eu nodi neu eu recriwtio ar gyfer tri o'r meysydd hyn. Bydd yr hysbyseb ar gyfer arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr yn cael ei gosod ym mis Mehefin 2019.

Mae'r is-grŵp Cynllunio Adnoddau Strategol wedi sefydlu prosiectau ac arweinwyr clinigol/prosiect ar gyfer y meysydd gwasanaeth canlynol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu modelau gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer y dyfodol:-

- MRI amlbarametrig – i gefnogi canllaw NICE; Canser y prostad: diagnosis a rheoli.

- Radioleg y Fron ac MRI ar gyfer Menywod Risg Uchel – cefnogi datblygiad pellach Gwasanaeth Radioleg y Fron symptomatig a sgrinio i Gymru.

- Radioleg Bediatrig – datblygu'r model gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth 24/7.

- PET-CT – datblygu Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer PET-CT yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae arweinwyr yr is-grwpiau yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i egluro a chadarnhau'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt.

Mae’r Uned Rhaglenni Strategol (Grŵp Cydweithredol Iechyd y GIG) yn cydweithio'n agos ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Chyfarwyddwyr Gweithredol Cynllunio GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun.

**3.2 Argymhelliad 2 – *dylai’r cynllun gweithredu cenedlaethol gynnwys dyddiadau gweithredu clir i sicrhau bod camau’n cael eu cymryd yn y tymor byr i ganolig, a dylid pennu’n glir pwy sy’n gyfrifol am gyflawni’r camau hyn*.**

Mae’r arweinwyr ffurfiol ar gyfer pob un o'r is-grwpiau yn arwain ar y camau gweithredu a nodwyd yn erbyn yr wyth maes blaenoriaeth a gynhwyswyd yn y *Datganiad o Fwriad o ran Delweddu* a'r heriau allweddol a amlygwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru.*

Paratowyd cynllun gweithredu drafft gan yr Uned Rhaglenni Strategol a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru ac SRO y rhaglen. Mae'r cynllun yn

manylu ar ddyddiadau targed ar gyfer cyflenwi, dyrannu adnoddau, grwpiau cyflawni atebol, cerrig milltir, pethau i'w cyflawni, manteision a chanlyniadau i GIG Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn craffu ar y cynllun drafft i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, yn gost-effeithiol ac yn mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r Datganiad o Fwriad o ran Delweddu.

**3.3 Argymhelliad 3 – *dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i gostio'r cynllun gweithredu'n briodol a sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gefnogi'r broses o'i roi ar waith.***

Mae'r Cynllun Gweithredu Delweddu drafft yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Datganiad o Fwriad o ran Delweddu.

Datblygwyd Strategaeth Rheoli Adnoddau ddrafft, a nododd yr adnoddau ychwanegol yr oedd eu hangen i gefnogi'r rhaglen waith.

Bydd angen gwneud rhagor o waith i ddeall y buddsoddiad y bydd ei angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu modelau gwasanaeth delweddu cynaliadwy yn y dyfodol (e.e. Achosion Busnes Rhaglenni Strategol ac Achosion Busnes Amlinellol dilynol ar gyfer PET-CT, neu gostau sy'n gysylltiedig ag ail-gaffael systemau gwybodeg delweddu).

Fel enghraifft o sut y caiff y gwaith hwn ei gefnogi, mae swydd Uwch Reolwr Rhaglenni wedi'i nodi ar gyfer Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i arwain datblygiad Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer datblygu PET-CT yng Nghymru. Bydd rheolwr y rhaglen hefyd yn datblygu'r achos i gefnogi datblygiad gwasanaeth Radioleg Bediatrig 24/7 ar gyfer GIG Cymru.

Mae trafodaethau'n parhau hefyd mewn perthynas â datblygu Llwybr Canser Sengl, er mwyn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i helpu i ddatblygu capasiti delweddu diagnostig ychwanegol ar draws GIG Cymru.

Cyn ei gymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru yn craffu ar gostau rhaglenni delweddu cenedlaethol er mwyn sicrhau bod dyraniad adnoddau yn gymesur â lefel y gweithgarwch sydd ei hangen i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.

**3.4 Argymhelliad 4 – *dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r broses o roi'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar waith.***

Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y mecanwaith llywodraethu ac atebolrwydd i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y *Datganiad o*

*Fwriad o ran Delweddu*, a bydd Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol yn atebol am fonitro darpariaeth y Cynllun Gweithredu Delweddu Strategol, a chefnogir hyn hefyd gan Gylch Gorchwyl clir, lle bo hynny'n briodol.

Mae Atodiad 1 yn amlygu hefyd y brif rôl y bydd rhanddeiliaid yn ei chyflawni wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Delweddu Strategol, a fydd yn canolbwyntio ar gynghori, galluogi a chyflawni amcanion allweddol.

## 4 Casgliad

Ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2019, gwnaed cynnydd da yn erbyn y meysydd blaenoriaeth allweddol, a bydd y mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd a sefydlwyd yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Delweddu.

Mae cynllun gweithredu delweddu drafft wedi'i rannu a bydd Llywodraeth Cymru yn craffu arno yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau: ei fod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn yr Argymhelliad yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Wasanaethau Radioleg, y Datganiad o Fwriad o ran Delweddu a blaenoriaethau cyffredinol eraill Llywodraeth Cymru (e.e. llwybr canser sengl); bod ganddo linellau amser, amcanion, cerrig milltir a chanlyniadau clir; ei fod yn disgrifio fframwaith llywodraethu cadarn ar gyfer gwerthuso cynnydd, gwneud penderfyniadau, rheoli risg a rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru; a bod cysylltiad clir a rhesymegol â'r adnoddau a nodwyd ar gyfer pob ffrwd waith. Ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno ar y cynllun a'i rannu â Swyddfa Archwilio Cymru, byddem yn ceisio cael cytundeb y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod yr argymhellion wedi'u cwblhau.

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus nodi'r cynnydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddant yn derbyn adroddiad pellach ar 7 Hydref 2019.

**Atodiad 1 Trefniadau Llywodraethu Arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol (Drafft 0.1)**


Prif Weithredwyr a Chadeiryddion Cymru Gyfan drwy'r Fforymau Arweinyddiaeth Gydweithredol a CEG
Llywodraeth Cymru
BWRDD STRATEGAETH Y RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL
(Cadeirydd SRO)
Trosolwg Strategaeth a Pholisi a gweithredu'r cynllun strategol ar ddelweddu
Cyfarwyddyd
Atebol i
Cefnogir gan Swyddfa'r Rhaglen Strategol
Rhyngddibyniaeth/Gweithio gyda
IS-GRWPIAU
Rheoli Rhaglen a Phrosiectau
Rheoli risgiau a phroblemau
Monitro buddion
PPM
Rheoli Pontio'r Cynllun Strategol – GIG Cymru
Grwp Cyfeirio Delweddu Clinigol Cenedlaethol
Rhwydwaith Canser Cymru
Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru (WSAC)
Gwp Cynghori PET Cymru (atebol i WSAC)
Is-bwyllgor Delweddu Clinigol
Coleg Brenhinol y Radiolegwyr a Chymdiethas y Radiograffwyr
CYNGHORI
GWEITHLU AC ADDYSG
ANSAWDD, DIOGEL., PROFIAD DEFNYDDIWR
CYNLLUNIO ADNODDAU'N STRATEGOL
GWYBODEG, GWYBODAETH A GWYB. FUSNES
GALLUOGI
CYFATHREBU / YMGYSYLLTU A RHANDDEILIAID
CVUHB
BCUHB
CTMUHB
ABUHB
SBUHB
HDUHB
Powys
PHW
Felindre
WAST
CYFLAWNI
NHS WALES GIG CYMRU
NIPS v0.1 15.05.19 JEF